

Cael sgwrs efo rhywun ar y stryd, a hwnnw'n gofyn beth oedd dyletsyddau y clochydd ers talwm, a roddodd y syniad i mi chwilio i mewn i weld beth oeddau nhw yn ei wneud mewn gwirionedd, a hefyd, sut bobol oeddau nhw. Mae lle i amau eu bod yn cael eu cyfrif ymhlith y 'cyffredin rai', h.y. y rhai oedd yn fodlon ar fyd di-ddysg a digyffro. Cawn weld.

Yn ei lyfr *Ar Lawer Trywydd* mae gan y Parch Gwynfryn Richards, cyn Ddeon Eglwys y Gadeirlan, Bangor, a brawd y cyn Archdderwydd Brinley Richards, bennod ar 'Yr Hen Glochyddion' ac mae yn rhoi peth o hanes fy hen-hen daid, Siôn Ifan a fu'n glochydd (o bosibl) ar Eglwys Sant Enclwydyn, Penmachno, hyd ei dymchwel yn 1858 (1621-1858) ac yna yn Eglwys Sant Tudcul a gysegrwyd yn 1859-1998. Mae'n debyg, felly, ei fod wedi peri i Garreg Siglo Coed-y-Fynnon grynu pan fyddai'n canu'r gloch! (gw. *Hynodion Gwlad y Bryniau*, Steffan ab Owain). A thra'n sôn am Eglwys Penmachno, yn ei lyfr *Hanes Cymru* mae John Davies yn dweud mai o Wynedd y daw y dystiolaeth helaethaf am natur y Brythoniaid cynnar, ac mae iddi fesur o uchafiaeth yn eu plith. Cyfeiria at y garreg fedd sydd yn dyddio'n ôl i tua'r flwyddyn 500 O.C., ac y daethpwyd o hyd iddi ym muriau Eglwys Sant Tudcul wrth wneud gwaith atgyweirio, i wr o'r enw Cantiorix, sydd yn cael ei ddisgrifio fel Venedotis Cives (Dinesydd Gwynedd). Yn y llyfr *Hynodion Gwlad y Bryniau* mae cyfeiriad at y 'Garreg Groes', sef carreg fedd i Carausis, eto a ganfuwyd ym mur yr Eglwys, a hon efo llun croes o fath cynnar iawn, a phrin hefyd.

Yn *Y Faner*, Awst 1948 awgrymodd Dr. Kate Roberts y byddai gwahodd cystadleuaeth ar y testun 'Clochyddion' yn un da i'r Eisteddfod Genedlaethol, a gwnaed hyn yn Eisteddfod Llandudno, 1963, ond heb lwyddiant. Felly, prin ydi'r wybodaeth sydd ar gael am y dynion yma.

Mae'n ffaith iddny roi gwasanaeth mawr i Eglwys a bro, a llawer ohonynt yn gymeriadau hynod o wreiddiol, ac mae'r hyn a adawsant ar eu hól yn dangos eu cyfraniad i ddiwylliant a thraddodiad eu gwlad.

Roedd i'r clochydd ddwy swydd amlwg - canu cloch y llan yn amser gwasanaethau Duw, a thorri beddau. Ef oedd 'gwas bach angau' neu 'di-ddiolch was y fro' er y byddai wrthi nerth bôn braich cyn pob cynhebrwng. Byddai rhai yn medru rhagfynegi cynhebrwng arall yn fuan pan 'yn clywed y rhaw a'r gaib yn anesmwytho y noson cynt', ac y mae E. Llwyd

'RHEN GLOCHYDDION Pegi Lloyd Williams

Williams yn cadarnhau hyn yn y llyfr *Hen Ddwylo* gan enwi Wil Canaan, y clochydd, oedd yn honni hyn. Os byddai'r rhaw yn mynd drwy'r pridd yn rhwydd, yna person 'agos i'w le' oedd i'w gladdu, ac os fel arall, yna person 'o'r byd' oedd yn mynd o dan y dywarchen, ond byddai'n canu'r gloch i bawb. Byddai'r gloch yn canu cyn ac ar

gynorthwyo. Byddai rhyw sgolor ifanc yn cael ei benodi'n glochydd er mwyn rhoi cyfle iddo'i gymhwysu ei hun gogyfer â'i urddo yn gurad. Ond mae hanes yn dangos fod rhai curadiaid mor dlawd fel y byddai'r Esgob yn caniatáu iddny ddychwelyd i fod yn glochyddion - er mai rhyw bum swllt (5/0d) y flwyddyn oedd



ddiwedd pob gwasanaeth, i'r priodasau, angladdau, cyhoeddi geni aer i'r sgweiar a dyweddai eu plant, fel rhybudd o berygl, ac o gwmpas tridegau y ddeunawfed ganrif i atgoffa pawb i roi'r tanau allan cyn noswyllo.

Daeth Wil Ifan o hyd i fedd yn y Dre Newydd trwy help y clochydd, a dweud:

Nid ydyw mor siŵr o dai y dre -
Mae cymaint o symud o le i le;
Ond am ystrydoedd erawr yr yw
Mae'n gwybod i'r dim lle mae pawb
yn byw.

Ond roedd gan y clochydd gyfrifoldebau eraill, fel edrych ar ôl yr adeiladwaith; gwarchodd llestri'r Cymun a'r llyfrau, ac yn ei ofal ef yr oedd urddwisgoedd yr offeiriad. Ef oedd i gadw'r Eglwys a'r fynwent yn lân a thaelus, a byddai allweddau'r adeilad wedi eu hymddiried iddo. Yn hanes Eglwys Llanymawddwy am y flwyddyn 1720, ar ôl arolwg, gwelir fod yno 'Ddau Gopi Cymraeg o'r Llyfr Gweddi Gyffredin; un Saesneg, a Hen Feibl gyda thudalennau'n eisiau a rhai wedi eu rhwygo'. Llyfrau i'r offeiriad a'r clochydd oedd y rhain, sef y ddau oedd yn lleisio yn y gwasanaethau, (gan y byddai y rhelyw o'r plwyfolion yn anlythrennog yn y cyfnodau cynnar). Yr arferiad oedd fod pawb, bron, yn eistedd ar lawr. (*Hanes a Chofnodion Meirionnydd* 1975).

Roedd ganddo gysylltiad agos a'r offeiriad, a dysgai lawer am grefft y Person wrth ei

rhai plwyfi yn ei dalu, ond câi eraill, fel clochydd Wreccsam, bum gini (£5.5.0d), ac felly dibynnwyd ar gael cildwrn am lanhau beddau; helpu mewn trefniadau priodas neu fedydd, ond yn bennaf am eu calennig. Mae cofnod i rai lofnodi fel tyst i briodas. Ond yr arferiad mwya' oedd glanhau'r rhaw yn lân a'i gosod wrth y bedd agored i dderbyn unrhyw rodd a fyddai gan y galarwyr i'w roddi, ond ychydig iawn oedd gan neb i'w sbario'r dyddiau hynny. Rhaid cofio y byddai disgwyl i bawb a âi i mewn i'r gwasanaeth gyfrannu fel casgliad a'i roi ar y plât ar ddesg y litani o flaen y gangell neu wrth y pulpud i'r offeiriad, cyn mynd i'r fynwent, ac un arall i glerc y plwyf, ac yn aml iawn y clochydd oedd y clerc hefyd, ond doedd ond un casgliad a ddeuai i'w ran, wrth gwrs. Nid wyf wedi gweld cofnod y byddai gan y clochydd 'raw newydd a glân wrth law' i'w rhoi wrth y bedd, fel yr awgrymodd un wrthyf. Dyma 'ARIAN Y RHAW'. Yn Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron, byddai'r casgliad i'r clochydd yn cael ei wneud yn ystod canu'r emyn ola' ac os y tybiai hwnnw nad oedd digon ar y plât byddai'n ail-ledio'r pennill ola! Mewn rhai eglwysi fel Aberffraw, yr arferiad oedd i'r clochydd fynd â het rownd o gwmpas y bedd (*Chigieth, C'nebrwg ac Angladd* - Catrin Stevens), ac yn *Llafar Gwlad* rhif 10 (Mari Ellis) cawn hanes

Dafydd Huws, clochydd Eglwys Llangelynnin, Dyffryn Conwy, a'i wraig Elin. Roedd ofn Elin ar bawb gan y byddai'n witsio pobl. Roedd cred ar led, os oedd rhywun yn sâl yn Ro-wen y byddai'n mynd allan liw nos i'w witsio i farwolaeth ac yna fe gaent arian am ei gladdu. Byddai Dafydd wedi gosod ei raw wrth y bedd, a byddai Elin ac yntau, wedyn, yn sefyll o bobtu'r giât yn gwneud yn siŵr na feiddiai neb fynd drwedd heb gyfrannu.

Er yr holl gyfrifoldebau, swydd ran-amser oedd hi - rhaid oedd cael gwaith arall i gadw corff a theulu. Gwelwn fod rhai yn wehyddion, garddwyr, ysgolheigion, athrawon, seiri coed a seiri maen, chwarelwyr a.y.b., ac mewn ardaloedd fel Beddgelert a Llanberis byddai galw amdanynt fel tywysyddion (*guides*) ar fynyddoedd Eryri.

Postman a chrydd oedd Siôn Ifan, ac yng nghyfrifiad 1881 cofnodir ef fel 'NAME - John Evans. SEX - Male. OCCUPATION - Postman.' ac yntau'n 76/77 oed!

Roedd yn un ffraeth iawn, yn fardd gwlad o dan yr enw Myfyr Machno (a Myfyr Twrog hefyd, mae'n debyg am ei fod yn dod o Gwm Cynfal, ger Maentwrog). Mae cyfeiriad ato mewn sawl erthygl ar hanes Penmachno, a phennod iddo yn y llyfr *Old Characters of Penmachno*. Byddai herian a thynnu coes ar bennill a chân yn mynd ymlaen ym Mhenmachno fel sawl pentref arall, a gwawdiodd Wil Jones y Beniarth o, un diwrnod, gan wfftio swydd fudr y torrwr beddau. Ond cafodd ateb sydyn iawn.

Er glychu o'r hen glochydd - a baeddu
Mewn beddau dŵfn, beunydd;
Eto, fe rydd ef ryw ddydd
Wil Beniarth ar wael 'bennydd.

A ddaw dim ateb yn ôl o'r fan honno, bid siŵr.

Ond chafodd o ddim! Darllenais wedyn fod William Jones wedi ymfudo, a marw, ym Merica. Roedd yr un mor sydyn yn yr iaith fain hefyd. Rhuthrodd rhyw wraig Saesneg i'w gyfarfod yng Nghwm Penmachno i holi a oedd llythyr iddi. Byddai'n cymeryd cryn amser i Siôn Ifan a'i ful gyrraedd y Cwm ar ôl dosbarthu yn y Llan ac ambell fferm:

'Well, John Evans, you are very long today,' ar ateb, 'As long as every day, five feet five inches, as they say.'

Ganwyd Siôn Ifan yn Nhŷ'r Ynys, Cwm Cynfal, Ffestiniog tua 1804 yn fab i Evan Jones a Siân Edward, a'i fedyddio yn John A. Jones yn Nhachwedd 1806. 'Rown ni'n gwbyn reit fawr yn cael fy meddyddio,' medda fo. Daeth y cyfenw 'Evans' ar adeg cyfrifiad mae'n debyg - Sion (ab) Ifan yn mynd yn John Evans, a bu farw ychydig yn brin o fod yn 100